# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2013** |
| Amser: | **09:00 – 12:05** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
<insert link here>

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Simon Thomas** |
| Tystion: | **David Corner, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Mike Davies, Prifysgol Caerdydd**<br>**Ann Marie Harkin, Cyfarwyddwr Grŵp – Adnoddau, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Terry Jones, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Andrew Parry, Prifysgol Glyndŵr**<br>**Yr Athro Patricia Price, Prifysgol Caerdydd**<br>**Yr Athro Michael Scott, Prifysgol Glyndŵr**<br>**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Kevin Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Paul Whiting, Prifysgol Glyndŵr** |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | **Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru 2012-2013: Tystiolaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru

2.1 Holodd y Pwyllgor Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2012-13.

## 3 Craffu ar Amcangyfrif Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2014-15

3.1 Holodd y Pwyllgor Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch ei Amcangyfrifon ar gyfer 2014-15.

3.2 Nododd y Pwyllgor fod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyflwyno amcangyfrif ategol ar gyfer 2013-14. Cytunodd y Pwyllgor i ohebu ag ef ynglŷn â'r mater hwn.

## 4 Ymchwiliad i Gyllido Addysg Uwch: Tystiolaeth gan Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Glyndŵr

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Patricia Price, y Dirprwy Is-Ganghellor, Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academaidd, Prifysgol Caerdydd, Mike Davies, Cyfarwyddwr Cyllid, Prifysgol Caerdydd, yr Athro Michael Scott, Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr, Prifysgol Glyndŵr, Paul Whiting, Cyfarwyddwr Cyllid, Prifysgol Glyndŵr ac Andrew Parry, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, Prifysgol Glyndŵr, o ran cyllido addysg uwch.

## 5 Ymchwiliad i Gyllido Addysg Uwch: Tystiolaeth gan y Brifysgol Agored

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rob Humphreys, Cyfarwyddwr, y Brifysgol Agored yng Nghymru a Michelle Matheron, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, y Brifysgol Agored yng Nghymru, o ran cyllido addysg uwch.

5.2 Cytunodd Rob Humphreys i anfon nodyn i'r Pwyllgor â manylion am bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed sy'n dilyn cyrsiau'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd.

## 6 Papurau i'w nodi

6.1 Nodwyd y papurau.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Ymchwiliad i Gyllido Addysg Uwch: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar gyfer yr ymchwiliad i gyllido addysg uwch.